# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 12.06.19 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Huw Davies (Cadeirydd), Ian Williams, Dylan Thomas, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, Geraint Micah, David Griffiths, Malcolm Hills, John Griffiths, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Dim.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd cofnodion o'r cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd ar 08.05.19 yn gywir.
   **Cynnig** – Kevin Goodchild **Eilio** – Keith Carroll **Arwyddwyd** – Huw Davies.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (08.05.19):**
   a) **Parc Carafanau Sunbeach - Llwyngwril -** ateb wedi ei dderbyn gan y Parc Cenedlaethol Eryri yn cadarnhau ei bod yn ymwybodol o'r estyniad i'r safle yma ers Mis Medi 2017. Wedi i'r Parc Cenedlaethol Eryri ymchwilio'r mater yn drwyadl, gyda chyngor eu hadran gyfreithiol, mae'n ymddengys y gall perchnogion Parc Carafanau Sunbeach fynd ymlaen i ddatblygu'r safle i leoli carafanau ychwanegol. Mae hyn oherwydd bod y tir dan sylw yn rhan o'r un uned gynllunio a bod ganddynt drwydded carafanau.

   **Penderfyniad** ➞ cysylltu â Pharc Cenedlaethol Eryri eto i ofyn iddynt gadarnhau …….
   **1.** Os byddai perchennog Sunbeach (Allen's) yn prynu mwy o dir ger eu safle presennol yn Sunbeach, yn y dyfodol, a fyddent yn gallu rhoi fwy o garafanau ar y safle ychwanegol yma heb wneud cais am gynllunio i Barc Cenedlaethol Eryri?
   **2.** Trwydded am faint o garafanau sydd gan Allen's - perchennog Sunbeach - i'w safle yn Llwyngwril?

5. **Gohebiaeth:**
   a) **Cyngor Gwynedd:** derbyn rhaglen waith ar gyfer Mis Mehefin: Arwisgo – Ffordd y Coleg.
   b) **Cyngor Gwynedd:** derbyn cytundeb partneriaeth toiledau cyhoeddus Llwyngwril → arwyddo'r cytundeb.
   c) **Mantell Gwynedd:** derbyn gwybodaeth ynglŷn â Chymhorthfa Gyllidol Loteri ➞ hysbyslen ar yr hysbysfwrdd.
   d) **Dail Dysynni:** cais am gyfraniad ariannol**.** Cytuno i gefnogi'r cais yma = £25.00.
   **Cynnig:** Ian Williams **Eilio:** John Griffiths.
   e) **Canolfan Therapi Plant Cymru:** cais am gyfraniad ariannol – cytunwyd i beidio a chefnogi'r cais yma.
   f) **BHIB:** Polisi Yswiriant y Cyngor Cymuned wedi ei adnewyddu am y flwyddyn 01.06.19 → 31.05.20.
   g) **Network Rail:** diweddariad gan Sam Hadley (NWR) ynglŷn â'r gwaith mae nhw yn trefnu i wneud ar y wal derfyn a rhwystrau diogelwch rhwng Friog a Llwyngwril.
   h) **Parc Cenedlaethol Eryri:** derbyn gwybodaeth ynglŷn ag ymgynghoriad cyhoeddus **-**
   Canllaw Cynllunio Atodol Draft – CCA 8: Llety Ymwelwyr.

6. **Tafarn Garthangharad, Llwyngwril**
   **Cynnig:-** Malcolm Hills yn cynnig fod "grŵp gwaith" yn cael eu greu - Gynghorwyr ag aelodau'r gymuned - i ymchwilio beth yw barn aelodau'r gymuned ynglŷn â phosibilrwydd i'r gymuned redeg y dafarn ….. ? ……
   **Penderfyniad:-** Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â'r cynnig yma, daeth aelodau'r cyngor i'r penderfyniad eu bod yn cefnogi'r cynnig "mewn egwyddor", a bod dau aelod o'r cyngor i ymuno a'r grwp, ac i adrodd yn ôl i'r cyngor cymuned. Rhoddodd Keith Carroll a Malcolm Hills eu henwau ymlaen.

7. **Materion Cynllunio**: **Dim**

8. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad Ariannol wedi ei wneud
Derbyniwyd Adroddiad Mis Mai 2019 yn gywir.
**Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** Kevin Goodchild **Arwyddwyd –** Huw Davies.

a) **Archwiliad Mewnol y Cyngor Cymuned gan Adran Archwilio Cyngor Gwynedd**
Archwiliad Mewnol y cyngor wedi ei gwblhau a'i arwyddo gan archwilydd Cyngor Gwynedd – 04.06.19
Barn yn Archwiliad wedi ei dderbyn - rhai elfennau y gellir eu tynhau i liniaru risgiau a adnabuwyd wedi eu trafod gyda'r aelodau. Cyngor i ymrwymo i roi sylw i'r risgiau a nodwyd a chymryd camau priodol i'w lliniaru.
Ffurflen Flynyddol wedi ei chymeradwo a'i harwyddo gan y Cadeirydd.

b) **Archwiliad Allanol y Cyngor Cymuned gan – BDO:**
Derbyn hysbysiad o'r archwiliad allanol gan BDO ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31.03.19
Ffurflen Flynyddol a'r wybodaeth a ofynnwyd amdan i gael eu hanfon i BDO erbyn 01.017.19.
Hysbysiad o Hawliau'r Etholwyr i gael ei roi ar yr Hysbysfwrdd yn Llwyngwril, Rhoslefain ag ar wefan y cyngor.

c) Chq – 100755 – Talu i gofrestru hefo ICO i gydymffurfio a rheolau GDPR **= £40.00.**
d) Chq – 100756 – Rhodd i Dail Dysynni **= £25.00**.

9. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:**
- **Un Llais Cymru:** Derbyn adroddiad gan Kevin Goodchild a Dylan Thomas o'r cyfarfod a fynychwyd yn Nolgellau.
- **Cyfarfod Y Ganolfan:** Derbyn adroddiad Malcolm Hills o gyfarfod pwyllgor Y Ganolfan.
  Cyfarfod blynyddol Y Ganolfan ➞ Nos Fercher 19.06.19 am 6.30yh.
- **Llwyngwril Environmental Group** – Derbyn adroddiad gan Ian Williams o'r cyfarfod a fynychodd i gael diweddariad ar sefyllfa'r "Japanese Knotweed" yn y pentref.

10. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol**: Dim yn bresennol.

11. **Unrhyw Fater Arall**:
a) **GDPR:** Adolygiad o'r wybodaeth ar ddeddfwriaeth gwarchod data wedi ei wneud.
Talu i gofrestru hefo ICO i gydymffurfio a rheolau gwarchod data = £40.00.
Hysbysiad preifatrwydd wedi ei rhoi i'r aelodau a hysbysiad preifatrwydd cyffredinol wedi ei rhoi ar y wefan.

b) **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) –** Aelodau'r Cyngor wedi ystyried pob dyfarniad yn adroddiad terfynol y panel – Chwefror 2019
**Penderfyniad** ➞ aelodau i gyd yn gytûn i fabwysiadu dyfarniad Rhif 43 yn unig ➝ costau teithio.
Aelodau i gyd wedi dewis "tynnu allan" o dderbyn lwfans o £150.00 ar gyfer y flwyddyn ariannol 31.03.2020, ac wedi rhoi rhybudd priodol i'r Clerc.

**Materion Cymunedol**:
c) **"Lay-by" Llangelynnin:** arwyddion wedi diflannu o'r "lay-by" ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd.
d) **Parcio ar y palmentydd:** cwynion wedi eu derbyn gan aelodau o'r gymuned ynglŷn â cheir yn parcio ar y palmentydd yn Llwyngwril, problem sy'n gwaethygu ➞ cysylltu â Heddlu Gogledd Cymru.
e) **Llwybrau Cyhoeddus:** Nodwyd fod y gamfa ar y llwybr ger Pant Gwyn heb gael ei thrwsio
➞ cysylltu a Chyngor Gwynedd eto.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 10.07.19 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**